# MEMORANDWM CYWIRIADAU A OSODWYD GERBRON Y CYNULLIAD O DAN REOL SEFYDLOG 22.13

## Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003

Y Cefndir

Cafodd Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003 ("y Gorchymyn"), y mae'r memorandwm hwn yn berthnasol iddo, ei ystyried gan y Pwyllgor Busnes ar 26 Tachwedd 2002, ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 29 Tachwedd 2002 a'i ystyried gan y Pwyllgor Deddfau ar 10 Rhagfyr 2002.

Nodwyd materion penodol gan y Pwyllgor Deddfau fel rhai addas i'w Cywiro o dan Reol Sefydlog 22.13.

**Y Diwygiadau**

**1.** Yn erthygl 4(2) yn nhestun Saesneg y Gorchymyn rhowch y geiriau "157(3) of the Housing Act 1985" yn lle'r geiriau "19 of the 1980 Act" ac yn nhestun Cymraeg y Gorchymyn rhowch y geiriau "157(3) o Ddeddf Tai 1985" yn lle'r geiriau "19 o Ddeddf 1980".

**2.** Ar ddiwedd trodnodyn (**a**) a (**b**) ar dudalen gyntaf y Gorchymyn, yn y testun Saesneg mewnosodwch y geiriau "*see* article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672)" ac yn y testun Cymraeg mewnosodwch y geiriau "*gweler* erthygl 2 yn Atodlen 1 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672)".

**3.** Dylid mewnosod y cyfeiriad ar gyfer troednodyn (**c**) yn erthygl 5(1) yn y testun

Saesneg "S.I. 1980/1375." ac yn y testun Cymraeg mewnosod "O.S. 1980/1375.".

**4.** Dylid mewnosod y cyfeirad ar gyfer troednodyn (**b**) yn y ddarpariaeth ardystio yn y testun Saesneg "1998 c.38" ac yn y testun Cymraeg "1998 p.38.".

Y Rheswm dros y Diwygiadau:

**1.** Mewnosodwyd y cyfeirad at adran 19 o Ddeddf Tai 1980 drwy wall ac yn ei le mae angen rhoi'r cyfeiriad iawn at adran 157(3) o Ddeddf Tai 1985 er mwyn i erthygl 4(2) o'r Gorchymyn fod yn effeithiol.

**2.** Mae angen cyfeirio at Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 i esbonio trosglwyddiad y pwerau o dan Ddeddf Tai 1985 a Deddf Tai 1996 oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Anwybyddwyd y cyfeiriad hwn wrth ddrafftio'r Gorchymyn.

**3&4.** Hepgorwyd y troednodiadau i erthygl 5 a chymal ardystio'r Gorchymyn oherwydd gwall teipograffyddol.

**Edwina Hart**
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau